# Swyddog y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun Heddlu a Throsedd 2025-2029




Fersiwn Darllen Hawdd

# Beth yw hwn?



Dafydd Llywelyn ydy fy enw i.

Fi yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Dyfed-Powys.




Rydw i wedi gwasanaethu ers wyth mlynedd.




Rydw i'n cyflwyno fy nhrydydd cynllun Heddlu a Throsedd.



Mae'r cynllun yma wedi cael ei wneud i adfer ffydd y cyhoedd yn yr heddlu a'r system gyfiawnder.



Bydda i'n gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau ni’n hygyrch.



Bydda i'n seilio polisi ar leisiau dioddefwyr.



Mae'n rhaid i ni ddysgu gwersi o'n camgymeriadau a pheidio â'u hailadrodd.



Rydw i eisiau gwella gwasanaethau plant.




Rydw i eisiau cael gwared ar hiliaeth.

# Fy Ngweledigaeth i



Fy ngweledigaeth i yw gwella ffydd a hyder yn yr heddlu.



Rydw i eisiau darparu gwasanaeth heddlu sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu:

1. **Gwarchod**




2. **Parchu**




3. **Cynnwys**



**4. Cynrychioli**



Rydyn ni eisiau dangos hyn drwy wella:



1. Pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo.



2. Hyder yn yr heddlu.



3. Ymgysylltu â'r gymuned.



4. Agweddau at yr heddlu fel cyflogwr i bawb.

## Egwyddorion arweiniol




Mae pum egwyddor sylfaenol yn hanfodol ar gyfer y cynllun yma.



Y cyntaf o'r egwyddorion hyn yw **Gweithio mewn Partneriaeth**.



Mae hyn yn golygu cydweithio â grwpiau a chymunedau.



Rydyn ni eisiau cryfhau cysylltiadau gyda grwpiau lleol i wella ein gwasanaethau.




Mae Plismona yng Nghymru yn gobeithio y bydd gweithio gyda'n gilydd ar nodau sy'n cael eu rhannu yn creu newid parhaol.



Yr ail egwyddor yw **Llywodraethu ac Atebolrwydd**.



Mae'n golygu bod yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl yr ydw i'n eu gwasanaethu.



Rydyn ni eisiau sicrhau bod gan y cyhoedd yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw am ein gwasanaethau.



Rydw i'n atebol i Banel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.



Y drydedd egwyddor yw **Cynaladwyedd**.



Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr ein bod ni'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.




Rydyn ni eisiau cyllid tymor hir teg ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys hefyd.




Byddwn ni'n cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol hefyd.



Y bedwaredd egwyddor yw **Ymgysylltu**.




Mae hyn yn golygu y bydd pobl ardal Dyfed-Powys yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau lleol.



Rydyn ni eisiau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, busnesau, a chymunedau lleol.



Rydyn ni eisiau adeiladu cysylltiadau cryfach â chymunedau amrywiol.



Y bumed egwyddor yw **Dull Wedi'i Deilwra, sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**.



Mae hyn yn golygu addasu ein gwaith i anghenion unigryw unigolion.




Rydyn ni eisiau ymatebion sensitif ac wedi'u teilwra i bob dioddefwr, tyst a throseddwr.



Byddwn ni'n creu amgylcheddau diogel a chefnogol ar gyfer y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

# Blaenoriaethau



Mae gen i dair blaenoriaeth sylfaenol ar gyfer y cynllun yma.



Y brif flaenoriaeth gyntaf yw **cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth**.




Bydda i'n sicrhau bod yr holl ddioddefwyr yn cael cefnogaeth sydd wedi'i theilwra ar eu cyfer nhw.



Mae pobl wedi dweud wrthyn ni nad ydyn nhw'n riportio troseddau os nad ydyn nhw'n meddwl y bydd camau'n cael eu cymryd.



Mae methu â dilyn i fyny ar adroddiadau trosedd yn lleihau hyder yn yr heddlu.





Bydda i'n adolygu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau.



Mae gan ddioddefwyr yr hawl i gael eu cyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion unigryw nhw.



Mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol ar gyfer cefnogaeth dilyn i fyny.



Mae angen hefyd i ni ganolbwyntio ar amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed.



Mae atal trais yn erbyn menywod a merched yn flaenoriaeth i bawb.




Yr ail brif flaenoriaeth yw **cefnogi cymunedau diogel drwy atal niwed**.



Bydda i'n atal niwed sy'n cael ei achosi gan drosedd ac yn mynd i'r afael â'r pethau sy'n achosi niwed.



Mae gennym ni ddyletswydd i weithio gyda'n gilydd i atal a mynd i'r afael â throseddau.



Rydyn ni'n cefnogi plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn oherwydd bod plant yn wahanol i oedolion.



Mae pobl yn dweud eu bod nhw eisiau gweld camau llymach yn erbyn delio cyffuriau.



Mae plismona gweladwy yn bwysig i'r gymuned oherwydd ei fod yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel.



Mae gweithio gyda phobl eraill i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi niwed yn flaenoriaeth.



Mae trigolion yn cytuno y dylen ni ganolbwyntio ar atal niwed a throseddu lefel isel cyn iddo fynd yn waeth.



Mae ymyrryd ac atal yn gynnar yn flaenoriaethau.



Mae gennyf ddyletswydd hefyd i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif.



Y drydedd brif flaenoriaeth yw **cefnogi system gyfiawnder fwy effeithiol**.




Bydda i'n gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i fynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu ein cymunedau.



Mae gen i ddyletswydd i weithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol.



Rydyn ni'n mynd yn ddiflino ar ôl pobl sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod a merched.



Rydyn ni'n dilyn strategaeth i atal plant rhag mynd i mewn i’r system cyfiawnder troseddol.



Byddwn ni'n lleihau aildroseddu drwy ymyrryd mewn meysydd fel tai.



Byddwn ni'n cyflawni'r hawl i gyfiawnder adferol ar gyfer dioddefwyr.



Mae pobl yn dweud wrthyn ni fod ffydd yn y system gyfiawnder yn dibynnu ar degwch, atebolrwydd ac amseroldeb.



Mae hyder yn y system gyfiawnder yn ddangosydd o lesiant cenedlaethol i Gymru.

# Adnoddau



Mae gen i gyfrifoldeb i reoli cyllid Heddlu Dyfed-Powys.



Mae dyrannu cyllid ac adnoddau yn gyfrifoldeb hollbwysig.




Y gofyniad cyllideb eleni oedd £143.9 miliwn.



Cafodd £79.4 miliwn o hwnnw ei ariannu o braesept.




Daeth £64.5 miliwn o hwnnw o grantiau'r Llywodraeth.



Cafodd £141.1 miliwn ei roi i'r Prif Gwnstabl.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Aeth £2.8 miliwn i'm swyddfa i.



Mae cyllid yn her fawr.



Bydd angen arbedion pellach.




Gyda chyllid priodol, gall y Prif Gwnstabl gael mwy o swyddogion ar lawr gwlad.



Mae cyllid addas hefyd yn cefnogi mwy o hyfforddi a datblygu.




Bydda i'n gwneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.



Rydw i'n cefnogi cynllun y Llywodraeth i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050.



Mae prosiect fferm solar yn cael ei gynllunio ar gyfer ein pencadlys ni.




Bydd hyn yn ein helpu ni i leihau ein hallyriadau carbon a'n biliau ynni ni.

# Gwasanaethau Rydw i'n Eu Cyllido



Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd gylch gwaith i leihau trosedd ac anhrefn.



Mae ganddyn nhw bwerau a chyllid i wneud hyn hefyd.



Dylen ni sicrhau'r canlyniadau gorau am y gwerth gorau.



**Pan fydda i'n cyllido gwasanaethau bydda i'n canolbwyntio ar y canlynol:**




1. Cael proses agored a thryloyw.



2. Sicrhau bod y broses yn addas ar gyfer cost y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.




3. Cael gwerth am arian drwy gydweithio.



4. Mesur effaith yr arian sy'n cael ei wario.




5. Dyfarnu contractau tymor canolig a thymor hir ar gyfer cynaladwyedd.




Grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r gyllideb ar gyfer comisiynu.




Mae hefyd yn cynnwys rhan o fy nghyllid craidd i.




Bydda i hefyd yn parhau i sicrhau mwy o gyllid yn seiliedig ar brawf o angen.




Bydda i hefyd yn rhoi grantiau i gymunedau, partneriaid, ac elusennau.




Bydd y grantiau hyn yn cefnogi prosiectau sy'n fy helpu i gyflawni fy mlaenoriaethau.

# Sut y Gallwch Chi fy Nghefnogi i



Mae fy ngwirfoddolwyr yn fy helpu i gyflawni fy ngweledigaeth.




Maen nhw'n fy nghefnogi i drwy adolygu’r gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys.



Mae chwe chynllun gwirfoddoli sy'n cefnogi fy rôl fel CHT.



Y cyntaf o'r cynlluniau hyn yw'r **Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa**.




Mae'n rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd gael y cynllun hwn.



Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn fy helpu i wybod bod carcharorion yn cael eu trin yn deg.




Maen nhw'n ymweld â gorsafoedd heddlu lleol mewn parau ar unrhyw adeg i weld sut mae'r carcharorion yn dod ymlaen.



Yr ail gynllun yw **Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa**.



Mae'r panel yma yn bodoli i wneud yn siŵr bod yr heddlu'n cadw pobl yn y ddalfa yn gyfreithlon.




Mae adroddiadau'n cael eu rhoi i'r Gwasanaeth ac yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i.



Y trydydd cynllun yw **Ymwelwyr Lles Anifeiliaid**.



Mae'r cynllun yma yn bodoli i wirio lles anifeiliaid sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu.



Mae gwirfoddolwyr lles anifeiliaid yn gwirio amodau cŵn heddlu.



Maen nhw'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod cŵn yr heddlu yn cael gofal a thriniaeth dda.



Mae disgwyl i bawb sy'n gweithio gyda chŵn yr heddlu gael un ymweliad mewn cyfnod o chwe mis.



Y pedwerydd cynllun yw'r **Panel Sicrhau Ansawdd**.



Mae'r panel yma yn arolygu ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd.



Maen nhw'n cael cyfarfod bob yn ail fis i adolygu cofnodion yr heddlu o unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd.





Mae adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i.



Y pumed cynllun yw **Llysgenhadon Ieuenctid**.



Mae hyn yn cynnwys pobl rhwng 14 a 25 oed.



Maen nhw'n cynrychioli grwpiau ieuenctid cymunedol o bob rhan o ardal Dyfed-Powys.



Mae'r cynllun yn helpu pobl ifanc i lywio fy mhenderfyniadau i am blismona.



Mae croeso i unrhyw un rhwng 14 a 25 oed ymuno â'r cynllun.




Y chweched cynllun yw'r **Fforwm Ymgysylltu Dioddefwyr**.



Mae'r fforwm yma yn cynnwys cronfa ddata o dros 50 o ddioddefwyr troseddau o bob rhan o ardal Dyfed-Powys.



Mae aelodau o'r fforwm hwnnw yn fy nghefnogi i roi dioddefwyr yn gyntaf.




Mae eu barn nhw'n fy helpu i wneud yn siŵr bod eu profiad yn cael effaith ar ein gwasanaethau.




Mae croeso i unrhyw ddioddefwyr troseddau ymuno â'r fforwm.

# Cyd-destun



Ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r ardal fwyaf yng Nghymru a Lloegr, gan gwmpasu dros ddau draean o dir Cymru.



Mae'n plismona ardaloedd pedwar awdurdod lleol.




Mae hefyd yn cynnwys dau fwrdd iechyd, dwy derfynfa fferi, dau barc cenedlaethol, ac 8,500 milltir o ffyrdd.



Mae'r boblogaeth yn tyfu ac yn dod yn fwy amrywiol.



Mae tua 515,899 o bobl yn byw yn ardal Dyfed-Powys.



Mae data diweddaraf y Cyfrifiad yn cofnodi 19 o grwpiau ethnig.



Y ganran fwyaf o hyn yw "Gwyn Prydeinig" ar 94.1%.



Nesaf mae "Gwyn: Arall" ar 2.5% ac "Asiaidd: Arall" ar 0.5%.



Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrechu i wella amrywiaeth yn ei weithlu.



Erbyn mis Mawrth 2024, roedd 47% o'r gweithlu yn fenywod.



Ond roedd y rhan fwyaf o fenywod yn cael eu cyflogi fel staff heddlu.



Mae 70% o weithlu'r heddlu yn dweud eu bod yn Wyn Prydeinig.



Mae 1.4% yn dweud eu bod yn Wyn Arall.




Roedd yn well gan 27% beidio â dweud.

Mae 29% o bobl ein cymunedau yn gallu siarad Cymraeg.




Mae 87% o weithlu Heddlu Dyfed-Powys yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg o leiaf.




Gall 20% gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg, a gall 20% arall gael sgwrs lawn yn Gymraeg.



Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 1,307 o swyddogion heddlu.



Roedd ganddo hefyd 951 o staff heddlu, 40 o gwnstabliaid gwirfoddol, a 24 o wirfoddolwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae gennyf y dyletswyddau canlynol:



1. **Gosod cyfeiriad a blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth.**



2. **Gweithredu fel llais y cyhoedd ar droseddu a phlismona.**



3. **Gweithio gyda phartneriaid i gadw pobl yn ddiogel, cefnogi dioddefwyr, a dod â phobl gerbron y llysoedd.**



4. **Comisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr a gwneud cymunedau'n fwy diogel.**



5. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif.




6. Cyhoeddi gwybodaeth amdanaf i a'r Prif Gwnstabl ar eich cyfer chi.



7. Penodi'r Prif Gwnstabl neu ei ddiswyddo os oes angen.



8. Delio â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl.





9. Cyhoeddi asesiadau o sut mae cwynion yn cael eu trin bob blwyddyn.



10. **Gosod praesept a chyllideb flynyddol yr heddlu.**




11. **Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ac Adroddiad Blynyddol.**




12. **Gwneud datganiad blynyddol ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys.**



13. **Gweithio gyda'r Panel Heddlu a Throsedd fel y gallan nhw adolygu a chefnogi fy ngwaith i.**



Gwaith y Prif Gwnstabl yw amddiffyn ein cymunedau drwy ddarparu plismona effeithiol.



Mae'r Prif Gwnstabl hefyd yn rheoli adnoddau ac yn gwneud penderfyniadau.



Mae'r Prif Gwnstabl hefyd yn ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion a staff yr heddlu.



Bydd y Panel Heddlu a Throsedd yn:



1. **Archwilio fy mhenderfyniadau i ar gyfer y cyhoedd.**



2. **Fy nghefnogi i gyflawni eu swyddogaethau.**




3. **Adolygu cynigion ar fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ac Adroddiad Blynyddol drafft.**



4. **Adolygu cynigion ar braesept yr heddlu a'r gyllideb ddrafft flynyddol.**



5. **Trin a datrys cwynion yn fy erbyn i.**



6. **Cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer Prif Gwnstabliaid a swyddogion statudol sydd i gael eu penodi.**



Mae’r Gofyniad Plismona Strategol yn disgrifio beth mae’r Ysgrifennydd Cartref wedi'u nodi fel bygythiadau presennol.



Mae hefyd yn disgrifio'r hyn y mae'r Ysgrifennydd Cartref yn dweud sydd ei angen ar yr heddlu i wrthsefyll y bygythiadau hynny.



Y saith bygythiad a ddisgrifir yn yr Gofyniad Plismona Strategol presennol yw:



1. **Trais yn erbyn menywod a merched**



2. **Terfysgaeth**



3. **Troseddau difrifol a chyfundrefnol**



**4. Digwyddiad seiber cenedlaethol**



**5. Cam-drin plant yn rhywiol**



**6. Anhrefn cyhoeddus**



**7. Argyfyngau sifil**



Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn cefnogi'r Prif Gwnstabl a fi i gyflawni ein dyletswyddau.



Mae fy swyddfa i wedi ystyried y dirwedd trosedd a phlismona genedlaethol.



Gwnaethon ni waith ymchwil a chynhalion ni ymgynghoriad ar nifer o flaenoriaethau.




Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.



Yn ogystal â blaenoriaethau partneriaid lleol a strategaethau plismona cenedlaethol.



Ac adborth o ffynonellau lluosog.




Bydda i'n parhau i adolygu'r cynllun yma.

Gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn:

[OPCC@dyfed-powys.police.uk](mailto:OPCC@dyfed-powys.police.uk)

01267 226440



Cyfeiriad y swyddfa:

Blwch Post 99

Llangynnwr

Caerfyrddin

SA31 2PF




Os oes gennych chi amhariad ar eich clyw neu'ch lleferydd, defnyddiwch ein gwasanaeth ffôn testun ar 18001 101.

Os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) gallwch chi gysylltu â 101 gan ddefnyddio Gwasanaeth Cyfnewid Fideo a ddarperir gan SignLive.

**Cafodd y fersiwn darllen hawdd hwn**

**ei greu gan**

**Planet Easy Read**

**Rydyn ni'n defnyddio Ffotosymbolau**